# Pa greaduriaid sy'n byw mewn amgylchedd coetir?

Addasiad
Anifeiliaid a Phlanhigion

## Bwriad Dysgu

- Dysgu am yr amrywiaeth o greaduriaid sydd i'w gweld mewn coetiroedd, a'r hyn y mae ei angen arnynt er mwyn goroesi.

## Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol

**Gwyddoniaeth -** Cyfathrebu'n glir drwy ddefnyddio'r eirfa wyddonol berthnasol.

Drwy waith maes, dylent gael y cyfle i astudio'r planhigion a'r anifeiliaid mewn dau amgylchedd lleol cyferbyniol.

Y ffactorau amgylcheddol sy'n effeithio ar yr hyn sy'n tyfu ac yn byw yn y ddau amgylchedd hynny.

**TGCh -** Defnyddio TGCh i hyrwyddo'u dealltwriaeth o wybodaeth y maent wedi'i hadalw a'i chasglu.

**ADCDF -** Yr amgylchedd naturiol.

## Amlinelliad o'r Gweithgaredd

- Plant yn trafod creaduriaid y coetir.
- Ymchwil ar un creadur o'r coetir.
- Creu ffeil ffeithiau ar gyfer eu creadur.

## Adnoddau

Taflenni "Y creadur dan sylw"

Taflen Weithgareddau – taflen Ffeil Ffeithiau wag

Mynediad i lyfrau / y rhyngrwyd ar gyfer ymchwil

**Ymweld â choetir lleol** cyn y wers e.e. Parc y Gnoll, Parc Margam

# Pa greaduriaid sy'n byw mewn amgylchedd coetir?

**Amlinelliad o'r Wers**

"Pam mae'r anifeiliaid hyn yn gweddu orau i gynefin coetir?"

- Dechreuwch drafod y mochyn daear neu’rystlum hirglust brawn gyda’r dosbarth.
- Nesaf, sesiwn trafod syniadau gyda'r plant i ddarganfod beth maen nhw eisoes ei wybod. Ydyn nhw'n gwybod ble maen nhw'n byw a beth maen nhw'n ei fwyta? Rhestrwch yr o'r holl ffeithiau maen nhw'n eu dweud.
- Welsh translation required for this bullet point
- Caniatáu i'r plant wneud peth gwaith ymchwil eu hunain. Esbonio eu bod yn mynd i greu ffeil ffeithiau am ________. Gallant benderfynu pa wybodaeth yr hoffent ei rhoi yn eu ffeiliau ffeithiau, neu gallant ddefnyddio'r templed a ddarperir.
- Rhoi taflen wybodaeth i'r plant ar gyfer eu gwaith ymchwil hefyd. Trafod gyda'r plant pa ffeithiau ddylai fod yn y ffeiliau ffeithiau. Rhoi cyfle iddynt feddwl am benawdau addas a fydd yn eu helpu wrth ymchwilio'r rhywogaethau a ddewiswyd.
- Bydd y plant yn dod o hyd i lawer o erthyglau drwy chwilio am '__________' ar y rhyngrwyd, ond mae gwefannau megis RSPB Bird Guide, neu Butterfly Conservation, yn llefydd da i ddechrau.
- Wedi i'r plant gynnal eu hymchwil, gallant greu eu ffeiliau ffeithiau eu hunain drwy ddefnyddio'r templed a ddarperir, neu drwy greu eu templed eu hunain.
- Arddangos y rhain i'r plant eu gweld, a thrafod yr wybodaeth wahanol a gasglwyd. Gofyn i'r plant pa fath o gynefin fyddai'n ddelfrydol ar gyfer ________.
- Beth byddai ei eisiau arno yn ei gartref delfrydol? Sicrhau bod y plant yn gwerthfawrogi bod argaeledd bwyd a lloches yn hanfodol er mwyn goroesi.

Awgrymiadau ar gyfer creaduriaid lleol eraill –

**Bronfraith**

**Moch daear**

**Ystlumod**

**Chwilod**

**Corynnod**

Beth y mae eu hangen arnynt i oroesi?

# Y creadur Dan Sylw
# Y Mochyn Daear

Mae moch daear yn llochesu dan ddaear, yn byw mewn tyllau o'r enw setiau.

Mae moch daear yn anifeiliaid ffyrnig a byddant yn amddiffyn eu hunain a'u hifanc ar bob cyfrif.

Mae rhai moch daear yn byw ar eu pennau eu hunain, ac eraill yn byw mewn grwpiau o'r enw llwythau. Gall maint y clan amrywio o 2 i oddeutu 15.

Mae'r gwryw ychydig yn fwy na'r fenyw. Gall eu cynffonau fod yn hirach, yn deneuach ac yn wynnach na chynffon y fenyw.

Mae gan fochyn daear ben bach, llygaid bach, gwddf byr, tew a chorff hir, siâp lletem â chynffon fer.

Mae moch daear yn Ewrop yn bwyta mwydod, trychfilod a lindys yn bennaf. Gallent hefyd fwyta mamaliaid bach, amffibiaid, ymlusgiaid ac adar, yn ogystal â grawnfwyd, gwreiddiau a ffrwythau.

Ar gyfartaledd, mae'r oedolion yn 75cm o hyd, gan gynnwys cynffon 15cm o hyd. Maent yn pwyso tua 12kg.

Mae moch daear yn anifeiliaid nosol ac wedi'u haddasu'n benodol i fyw dan ddaear.

Nid yw moch daear yn gaeafgysgu! Maent wedi dod o hyd i ffyrdd o gynnal eu hegni a phwysau'r corff yn ystod misoedd y gaeaf.

Mae'r enw Saesneg am fochyn daear, 'badger', yn dod o'r gair Ffrangeg 'becheur', sy'n golygu cloddiwr.

Caiff llawer o foch daear eu lladd gan geir wrth iddynt groesi heolydd.

Gelwir y gwryw yn faedd, y fenyw yn hwch, a'r ifanc yn genau.

Genir cenawon mewn torllwythi o 2 neu 3.

Du a gwyn yw blew mochyn daear.

Pan gaiff cenawon eu geni, maent yn ddall ac yn binc, gyda ffwr sidanaidd, ac yn mesur tua 12cm o hyd. Mae eu llygaid yn agor pan fyddant tua 5 wythnos oed.

Mae moch daear i'w gweld fel arfer mewn coed, mewn gwrychoedd, meysydd agored a hyd yn oed ystadau tai!

Gornest waed yw baetio brochod. Mae'n anghyfreithlon.

# Y Mochyn Daear

Disgrifiad

Maint

Cynefin

Deiet

Bridio

Gwybodaeth Ychwanegol

Y creadur Dan Sylw

# Yr Ystlum Hirglust Brown

Y rhywogaeth ystlumod ail fwyaf cyffredin ym Mhrydain yw'r rhain.

Mae eu ffwr yn hir ac yn wlanog neu'n flewog. Mae ffwr yr oedolion yn frown-llwydfelyn, ac mae eu hwynebau'n binc-brown.

Mae pilenni'r adenydd a'r clustiau yn lwyd-frown golau.

Ystlumod yw'r unig famaliaid sydd wir yn gallu hedfan.

Hyd y corff: 4.2-5.3cm,
Hyd yr adain: 24-28cm.
Cyfartaledd pwysau: 6-12g.
Maint: Y pen a'r corff tua 4.5cm. Y clustiau tua 3cm.

Maent yn crwydro ar draws coetiroedd conwydd a chollddail, yn ogystal â pherllannau a pharcdiroedd.

Mae gan ystlumod hirglust brown lygaid a chlustiau eithaf mawr i'w helpu i ganfod ysglyfaeth mewn amgylcheddau llawn.

Maent yn hela'n agos at eu clwydfan mewn coetir agored neu barcdir, ac yn bwydo wrth hedfan. Mae eu bwyd yn cynnwys chwilod, gwyfynod, corynnod, clêr a gwybed – maent hefyd yn tynnu lindys, corynnod ac ysglyfaeth arall oddi ar frigau a dail.

Yn ystod yr haf maent yn clwydo mewn tyllau coed, blychau ystlumod ac adar, ac atigau.

Nid yw'r ystlumod ym Mhrydain yn bwydo ar waed!

Ceir ystlumod hirglust brown fel arfer mewn agennau, ond gallant fod ar y wal, weithiau'n hongian yn rhydd gyda'u hadenydd wedi'u lapio'n rhannol o gwmpas eu cyrff.

Mae ystlumod hirglust yn dod allan yn y tywyllwch.

Uwchsain yw'r synau a wneir ganddynt, sy'n ffordd arall o ddweud nad yw pobl yn gallu eu clywed.

Yn ystod y gaeaf maent yn gaeafgysgu mewn seleri, twneli ac ogofeydd, fel arfer ar eu pennau eu hunain, o fis Hydref tan fis Mawrth/Ebrill.

Mae'r esgyrn mewn adain ystlum yn union fel y rhai ym mraich a llaw person, heblaw am y ffaith bod esgyrn bysedd ystlum yn estynedig iawn ac wedi'u cysylltu gan bilen ddwbl o groen i ffurfio'r adain.

Maent yn cyplu yn yr hydref, ac yn rhoi genedigaeth ganol mis Mehefin. Genir eu babanod yn fyw, ac maent yn bwydo ar laeth y fam. Maent yn cael eu diddyfnu ac yn gallu hedfan erbyn diwedd mis Gorffennaf.

# Yr Ystlum Hirglust Brown

Disgrifiad

Maint

Cynefin

Deiet

Bridio

Gwybodaeth Ychwanegol

# Y

Disgrifiad

Maint

Cynefin

Deiet

Bridio

Gwybodaeth Ychwanegol